OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1074

# Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

**Gwaith adeiladu nad yw i gael ei drin fel pe bai goblygiadau iddo o ran draenio**

**3.**—(1) Nid yw gwaith adeiladu a fyddai, oni bai am yr erthygl hon, â goblygiadau o ran draenio i'w drin fel pe bai goblygiadau iddo o ran draenio os caiff ei wneud o dan yr amgylchiadau ym mharagraff (2).

(2) Mae'r amgylchiadau fel a ganlyn—

(a) pan fo gwaith adeiladu yn cael ei wneud gan fwrdd draenio mewnol drwy arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991(**1**);

(b) pan fo gwaith adeiladu yn cael ei wneud at ddiben adeiladu, neu mewn cysylltiad ag adeiladu—

(i) ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod priffyrdd ar ei chyfer;

(ii) rheilffordd gan Network Rail.

(3) Yn yr erthygl hon—

mae i "awdurdod priffyrdd" yr ystyr a roddir i "highway authority" yn adran 1 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**2**);

mae i "bwrdd draenio mewnol" yr ystyr a roddir i "internal drainage board" yn adran 1 o Ddeddf Draenio Tir 1991;

ystyr "Network Rail" yw Network Rail Infrastructure Limited (Rhif Cwmni 02904587) y mae ei swyddfa gofrestredig yn 1 Eversholt Street, Llundain, NW1 2DN;

mae i "rheilffordd" yr un ystyr ag a roddir i "railway" yn adran 67(1) o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(**3**).

(**1**) 1991 p. 59.
(**2**) 1980 p. 66. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae swyddogaethau CCC yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) 1992 p. 42.